**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun, Mehefin 19eg 2006 yng Nghanolfan Busnes Conwy, Cyffordd Llandudno. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt yr Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
| --- | --- |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim eitemau wedi eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Ymddiheurodd y Cadeirydd i'r Awdurdod am newid lleoliad y cyfarfod. Dywedodd fod angen lleoliad mwy canolog wedi'r penderfyniad i gynnal derbyniad i ddathlu dengmlwyddiant yr Awdurdod yn syth wedi'r cyfarfod. Yna:

i. rhoddodd groeso cynnes i Ms Dawn Docx, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) y Gwasanaeth oedd newydd ei phenodi. Roedd Ms Docx yn dechrau ar ei swydd gyda'r Gwasanaeth ar ddiwrnod y cyfarfod;
ii. rhoddodd groeso i'r Cynghorwyr S C Jones a Ron Hampson yn ôl i gyfarfodydd yr Awdurdod wedi cyfnodau o afiechyd. Diolchodd y ddau aelod i bawb am eu dymuniadau da;
iii. llongyfarchwyd y Cynghorydd D Barratt am gael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir y Fflint am 2006/07 ac i'r Cynghorydd S Frobisher am gael ei hethol yn Faer Prestatyn am 2006/07. Llongyfarchwyd gŵr y Cynghorydd Frobisher hefyd am gael MBE yn Rhestr Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines;
iv. atgoffwyd yr aelodau fod angen cyflwyno eu derbynebau TAW wrth hawlio costau teithio;
v. cafodd yr aelodau wybod bod y Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (NJC) wedi cytuno i godiad cyflog o 2.7% i ddiffoddwyr tân a hynny'n dod i rym ar Orffennaf 1af 2006. Byddai'r trafodaethau'n cychwyn cyn bo hir ar y trefniadau ar gyfer y codiad cyflog yn 2007.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar Fawrth 27ain 2006

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar Fawrth 13eg 2006
iii. Cyfarfod y Panel Penodiadau a gynhaliwyd ar Fawrth 17eg 2006

## 5) Materion yn codi

Nid oedd dim materion yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar Fawrth 27ain 2006. Aeth yn ei flaen i restru'r digwyddiadau a'r gweithgareddau oedd yn yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r aelodau ynghylch gwahanol agweddau ar yr wybodaeth oedd ynddo. Cyfeiriwyd yn benodol at Gangen y Diffoddwyr Tân Ifanc (YFA) yn Llanfairfechan, a oedd bellach yn cyfarfod bob pythefnos, a'r Penwythnos Cyrhaeddiad a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Bangor ar Fehefin 17eg a 18fed 2006. Diolchodd y Cadeirydd i'r Awdurdod am ei gefnogaeth yn ariannu'r digwyddiad a fu'n llwyddiant mawr yn ôl pawb a gymerodd ran neu a ddaeth i wylio. Ymunodd y Cynghorydd S Frobisher â'r Cadeirydd yn diolch i bawb oedd wedi bod yn rhan o sicrhau llwyddiant y digwyddiad. Llongyfarchwyd cangen Caergybi am fod y 'cyflawnwyr cyffredinol' yn 2006. Mynegodd y Cadeirydd ei obaith y byddai digon o arian yn cael ei sicrhau i alluogi hyn i ddod yn ddigwyddiad blynyddol.

Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd i Lansiad Gweinidogol Grŵp Ymateb i Ddigwyddiadau ar y Môr (*Marine Incidents Response Group (MIRG)*), grŵp yr oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn aelod ohono, fod yn ddigwyddiad rhagorol. Roedd rhagor o gyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru (WF&RSAC) a Grŵp Cyswllt y Gwasanaeth Tân ac Achub (FRSLG) i fod i gael eu cynnal yn y dyfodol agos, ynghyd â chyfarfod ymddiriedolwyr Atal Tân Cymru.

Llongyfarchwyd holl aelodau'r staff a fu'n rhan o drefnu Cynhadledd "Walesfire 2006" gan yr Is-Gadeirydd. Yn ei dyb ef, bu'r Gynhadledd yn ddigwyddiad rhagorol. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.***

## 7) Y Cynllun Integredig Rheoli Risg – Cynllun Gweithredu'r Drydedd Flwyddyn

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am argymhellion y Panel Gweithredol yn dilyn yr ymgynghoriad ar "Cynnal y Momentwm", sef cynllun gweithredu trydedd flwyddyn Cynllun Integredig Rheoli Risg yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau wybod bod y Panel Gweithredol, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar Fawrth 27ain 2006 i ohirio penderfyniad ynghylch mabwysiadu'r Cynllun tan y cyfarfod presennol, wedi cwrdd ar Fai 18fed 2006 i roi ystyriaeth pellach i'r materion oedd wedi codi yn yr ymgynghoriad a gwybodaeth a ddaeth gan Lywodraeth y Cynulliad ynghylch "Safonau Gwasanaeth at Danau yn y Cartref yng Nghymru".

Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon yn ei flaen i roi gwybod i'r Awdurdod fod paragraffau 6 i 8 o'r adroddiad yn rhestru argymhellion y Panel ynghylch y Cynllun Gweithredu, tra roedd paragraff 7 yn cynnwys y penderfyniadau diwygiedig mewn perthynas â'r Peiriannau Deuddiben, Tendrau Argyfwng (ET) a'r Peiriannau Cyrraedd yn Uchel. Roedd paragraff 10 yn yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Panel Gweithredol amdano am y goblygiadau ariannol a'r gwaith paratoi fyddai ei angen yn y dyfodol agos wrth arwain at gomisiynu peiriant cyrraedd yn uchel newydd. I ateb cwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch a fyddai'r wybodaeth y ffurfiwyd y cynnig ynghylch y peiriant cyrraedd yn uchel yn debygol, o safbwynt yr ochr weithredol, o newid dros y deuddeng mis nesaf, dywedodd y swyddogion nad oeddent yn rhagweld y byddai'r sefyllfa'n newid. O gael yr wybodaeth hon, cynigiodd y Cynghorydd W J Chorlton ddileu cymal olaf y gwelliant drafft ynghylch y peirannau cyrraedd yn uchel. Eiliwyd a chefnogwyd y cynnig hwn. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - mabwysiadu "Cynnal y Momentwm" yn Gynllun Gweithredu Trydedd Flwyddyn yr Awdurdod gan aros cynnwys y gwelliannau canlynol i'r pwynt cyntaf o'r cynllun gweithredu:***

- ***i.*** ***yr adran ar Beiriannau Deuddiben i gael ei newid i ddatgan – "Bydd hyn yn gweld cyflwyno chwech o beiriannau deuddiben pwrpasol i'r Gwasanaeth gyda phedwar peiriant arall yn cael eu haddasu yn beiriannau deuddiben. Bydd y peiriannau hyn yn cael eu lleoli'n strategol drwy'r Gogledd i ddarparu safon cyrraedd o 30 munud. Hefyd, bydd ymholiadau'n cael eu gwneud i weld a oes adnoddau ariannol ar gael a fyddai, yn y tymor hir, yn fodd i'r Awdurdod, yn seiliedig ar risg, ymestyn y ddarpariaeth o beiriannau deuddiben i orsafoedd eraill drwy'r Gogledd."***
- ***ii.*** ***yr adran ar Dendrau Argyfwng i gael ei newid i ddatgan – "Y bwriad yw uwchraddio'r holl offer achub hydrolig sydd ar injanau tân rheng flaen. Bydd y gwaith hwn o uwchraddio'n cael ei wneud ar sail asesu risg, ac i ddilyn, byddir yn cael gwared fesul cam ar ddau Dendr Argyfwng (ET). Pan fydd y cam hwn wedi ei orffen, bydd y ddau dendr***

***argyfwng sydd ar ôl yn cael eu diweddaru i ddod yn Unedau Achub Arbennig (Special Rescue Units (SRUs)).”***

***iii. yr adran ar beirannau cyrraedd yn uchel i gael ei newid i ddatgan – “Byddwn yn mabwysiadu amser cyrraedd o 20 munud i beiriannau cyrraedd yn uchel ac o’r herwydd, bydd y ddarpariaeth bresennol, sef pedwar peiriant, yn cael ei chadw, gan adolygu’r sefyllfa ymhen deuddeng mis.”***

## 8) Cynllun Lleihau Risg 2007/08

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno’r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi Cynllun Lleihau Risg drafft 2007/08 yr Awdurdod i’r aelodau. Dywedodd wrth yr Awdurdod fod y Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar Fai 18fed 2006, wedi gwneud nifer o welliannau i’r cynllun drafft ac roedd pob un wedi ei ymgorffori i’r Cynllun cyn ei gyflwyno i’r Awdurdod yn y cyfarfod presennol. Yna, aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon drwy’r risgiau cymunedol a chorfforaethol cyn rhoi gwybod i’r aelodau fod copi o’r Cynllun drafft wedi ei gyflwyno, yn unol â’r Arweiniad ar Gynlluniau Lleihau Risg, i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn y Cynulliad fel rhan o’r broses drafod anffurfiol. At hynny, roedd y Prif Swyddog Tân a’r Cadeirydd i fod i gyfarfod â’r Gweinidog i drafod bwriadau’r Awdurdod ar Fehefin 21ain 2006. Byddai unrhyw newidiadau y byddai’r Awdurdod yn penderfynu eu gwneud i’r Cynllun drafft yn cael eu hadrodd ar lafar i’r Gweinidog yn y cyfarfod hwnnw. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo’r Cynllun Lleihau Risg drafft fel y’i lluniwyd at ddiben ymgynghoriad.***

## 9) Cyflwyniad gan Adran Cyfathrebu Corfforaethol y Gwasanaeth

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr Gareth Watson, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol y Gwasanaeth, i’r cyfarfod i roi cyflwyniad i’r aelodau am yr Adran newydd. Soniodd Mr Watson am gefndir sefydlu’r Adran a rhoi amlinelliad o’i swyddogaeth a swyddogaeth yr unigolion sydd yn gweithio ynddi. Aeth yn ei flaen i esbonio fod cylch gwaith yr Adran yn cwmpasu pob agwedd ar waith cyfathrebu corfforaethol y Gwasanaeth, yn amrywio o gyfathrebu mewnol ac allanol i faterion yn ymwneud â’r iaith Gymraeg. Gellid categoreiddio’r gwaith hyn yn bedwar prif faes:

**Cyfathrebu allanol** – mae’r maes hwn yn cynnwys Cysylltiadau Cyhoeddus, Materion Cyhoeddus, y Wefan, taflenni, posteri a chyhoeddiadau megis “Er Gwybodaeth”.
**Cyfathrebu mewnol** – gwasanaeth briffio newyddion dyddiol i’r holl staff, cylchlythyr staff a bwletinau gwybodaeth ac adroddiadau mewnol eraill.
**Cyfieithu** – darparu gwasanaeth cyfieithu corfforaethol yn ymwneud â holl ddogfennau a thaflenni’r Gwasanaeth a’r Awdurdod. Mae cyfieithydd y Gwasanaeth hefyd yn cynghori swyddogion ar faterion dwyieithog, yn monitro’r

defnydd o ddwyieithrwydd ac yn rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud â Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth.
**Cysylltiadau â'r Cyfryngau** – cynhyrchu a dosbarthu datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau a chydlynu ceisiadau am gyfweliadau ar y teledu a'r radio.

Rhestrodd Mr Watson yr hyn mae'r Adran wedi ei gyflawni hyd yn hyn, ac roedd hynny'n cynnwys lansio gwefan newydd, datblygu a gweithredu'r brand a'r ddelwedd corfforaethol newydd, gwella'r cysylltiadau â'r cyfryngau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol a chryfhau cysylltiadau i weithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau brys eraill ac awdurdodau lleol yn y Gogledd fel rhan o Weithgor Grŵp Cynllunio rhag Argyfyngau Gogledd Cymru.

I gloi ei gyflwyniad, rhoddodd Mr Watson wybod i'r Awdurdod am gynlluniau'r Adran at y dyfodol ac roedd hynny'n cynnwys rhoi hyfforddiant am gyfathrebu i'r staff, llunio Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol wedi ei hanelu at alluogi'r Gwasanaeth i wella ei waith cyfathrebu a datblygu Mewnrwyd. Wrth ateb cwestiynau'r aelodau, cadarnhaodd Mr Watson fod ei dîm wrthi'n ystyried datblygu protocolau ar gyfer ymdrin ag e-byst ac i gael cyfarchiad swyddogol ar ffonau'r Gwasanaeth. Dywedodd wrth yr Awdurdod hefyd y byddai ymgyrch recriwtio ar y cyd yn rhan o'r cynlluniau ar gyfer rhagor o gydweithredu gyda'r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad. Ymddiheurodd nad oedd y cyflwyniad yn ddwyieithog ac roedd yn cytuno y dylid gwneud mwy i annog dwyieithrwydd ac y byddai hynny'n digwydd.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Watson am fynychu ac am ateb cwestiynau'r aelodau.

## 9) Y Datganiad o Gyfrifon 2005/06

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a'r Datganiad drafft o Gyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2006. Ymddiheurodd nad oedd y fersiwn Gymraeg o'r cyfrifon drafft ar gael tan fore'r cyfarfod, ond esboniodd fod y cyfyngiadau amser wrth gael y cyfrifon yn derfynol wedi golygu nad oedd modd osgoi hynny. Aeth y Trysorydd yn ei flaen i esbonio fod y Datganiad drafft o Gyfrifon 2005/06 yn cael ei gyflwyno i'r aelodau at ddiben ei gymeradwyo yn unol â'r ddarpariaeth yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005. Roedd copi o'r cyfrifon wedi cael eu cyflwyno i Swyddfa Archwilio Cymru a byddent hwy'n edrych arnynt ac yn rhoi adroddiad maes o law. Tynnwyd sylw'r aelodau at wall oedd yn y trydydd paragraff ar y bedwaredd dudalen o fersiwn Saesneg y Datganiad o Gyfrifon: dylai'r ffigwr yn y trydedd frawddeg ddarllen £35,000 ac nid £35,00. O ran y tanwariant uwch na'r disgwyl yng nghyllideb 2005/06 dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau fod camau eisoes wedi eu cymryd, fel y gwelir ym mharagraff 4 o'r Cyfrifon drafft, i ddefnyddio'r tanwariant. Gan fod bellach angen sicrwydd ychwanegol ar gyfer y Datganiad o Reolaeth Fewnol, sef gofyniad newydd ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2005/06, daeth i'r amlwg nad oedd gan y gwasanaeth archwilio mewnol presennol a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref

Sirol Conwy y gallu i amsugno'r llwyth gwaith ychwanegol. Felly doeth oedd i'r Awdurdod neilltuo rhan o'r tanwariant i ariannu'r gwaith ychwanegol y byddai'n, fwyaf tebyg, angen ei anfon at ymgynghorwyr allanol. Awgrymodd y dylai'r frawddeg olaf yn y paragraff olaf yn adran 4 gael ei newid i "Er mwyn sicrhau darpariaeth archwilio briodol mae darpariaeth, o falans y tanwariant sef £44,984, wedi cael ei sefydlu ar gyfer gwaith archwilio ychwanegol." Byddid yn ystyried rhagor ar y ffordd i ddelio â llwyth gwaith cynyddol fel rhan o broses gosod y gyllideb ar gyfer 2007/08. Roedd y Prif Swyddog Tân wedi cyfarfod yr archwilydd allanol yn ddiweddar i drafod y Datganiad o Reolaeth Fewnol, ymhlith pethau eraill.

I ateb cwestiwn gan yr Is-Gadeirydd dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau fod y trafodaethau'n parhau ynghylch Cynllun Pensiwn newydd y Diffoddwyr Tân. Cadarnhaodd hefyd nad oedd yn ymwybodol am gais am gyfraniadau ychwanegol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:

***Penderfynwyd:*** ***- gan aros cynnwys y newidiadau uchod o ran cyflwyniad, cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar Fawrth 31ain 2006***

### 10) Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2005/06 a'r Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2006/07

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol yn 2005/06 a'r Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2006/07. Cyn mynd drwy gynnwys ei adroddiad dywedodd y Trysorydd wrth yr aelodau fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi gofyn i'r swyddogion am gael rhoi cyflwyniad i'r aelodau ar Strategaeth Archwilio'r Awdurdod ar gyfer 2005/06. Gan na dderbyniwyd y cais hwn cyn trefnu'r agenda a busnes y cyfarfod presennol yn derfynol, dywedwyd wrth y Swyddfa na allai'r Awdurdod ateb y cais yn y cyfarfod presennol. Dywedodd y Trysorydd na fyddai'n briodol i'r Awdurdod ddisgwyl tan ei gyfarfod nesaf ym mis Hydref, nac ychwaith fod angen galw cyfarfod arbennig i dderbyn a chymeradwyo'r Strategaeth. Roedd o'r farn mai priodol fyddai i'r Awdurdod ddirprwyo ei bwerau ynghylch y mater hwn i'r Panel Gweithredol. Felly:

***Penderfynwyd: -***

- ***i nodi'r crynodaeb o'r gwaith Archwilio Mewnol am 2005/06 a chymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2006/07;a***
- ***ii. dirprwyo ei bwerau mewn perthynas â'r Strategaeth Archwilio am 2005/06 i'r Panel Gweithredol.***

### 11) Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad blynyddol ar reoli'r trysorlys (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Esboniodd fod yr adroddiad, sef rheidrwydd dan

weithdrefnau adrodd yr Awdurdod, yn ymorol am weithgarwch rheoli'r trysorlys am y flwyddyn 2005/06. Cafodd yr aelodau wybod bod yr Awdurdod, fel rhan o drefn gosod y gyllideb ac er mwyn cydymffurfio â gofynion y Cod Darbodus, yn gorfod gosod nifer o ddangosyddion darbodus, ac adrodd ynghylch y gwir ddangosyddion ar ddiwedd y flwyddyn.

Holodd y Cynghorydd J Vaughan a oedd y ffaith fod cyllideb yr Awdurdod wedi dangos tanwariant o fwy na £500k yn golygu rheolaeth dda o'r trysorlys. Sicrhawyd yr aelodau gan y Trysorydd fod cyfanswm y tanwariant yn ganlyniad o gyfuniad o ffactorau a oedd yn cynnwys rheolaeth dda o'r trysorlys, incwm a gweithgarwch ffafriol ar y farchnad arian a llai na'r disgwyl o weithgarwch ar yr ochr weithredol. Atgoffwyd yr aelodau gan y Trysorydd hefyd fod elfen o bwyll wedi ei gynnwys yn y broses o osod cyllideb yr Awdurdod oherwydd natur y gwasanaeth a ddarperir, gan fod alldro'r gyllideb at ei gilydd yn ddibynnol iawn ar y digwyddiadau yr eir atynt ar yr ochr weithredol. Atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân ei bod yn anodd tu hwnt rhagweld y lefel a ddisgwylir ac y gallai elfennau'r tywydd arwain at lawer o danau glaswellt neu lifogydd a chael effaith ddramatig ar yr ffigwr alldro. Roedd y gostyngiad yn nifer y digwyddiadau ar yr ochr weithredol hefyd yn dangos bod gwaith diogelwch tân rhagweithiol yr Awdurdod yn talu ar ei ganfed. Er bod y ffigwr alldro yn is na'r disgwyl, cafodd yr aelodau wybod gan y Prif Swyddog Tân fod yr Awdurdod wedi cael nifer o gostau annisgwyl, megis y cyfraniadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a chost y broses o gymhathu o reng i rôl. Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton wrth yr Awdurdod y byddai'r awdurdodau cyfansoddol, yn ei farn ef, yn cwestiynu'r lefel o gyfraniadau y gofynnir amdanynt ganddynt i Gyd-Gronfa'r Gwasanaeth Tân petai'r Awdurdod yn parhau i danwario llawer ar ei gyllideb. Felly:

***Penderfynwyd*: -**

***i. cymeradwyo'r gwir Ddangosyddion Darbodus yn 2005/06; a***
***ii. nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2005/06.***

## 13) Dileu Dyled Ddrwg

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cymeradwyaeth yr aelodau, yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod, i ddileu dyled ddrwg. Esboniodd fod yr holl wybodaeth gefndir am y ddyled i'w chael yn yr adroddiad ac mai peth anghyffredin iawn oedd gofyn i'r Awdurdod ddileu dyled ddrwg.

Rhoddodd y Cynghorydd J A Smith wybod i'r swyddogion fod y safle dan sylw wedi ei werthu at ddibenion datblygu, a holodd a ellid adfer y ddyled trwy elw'r gwerthiant. Dywedodd y Trysorydd y byddai hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau, yn cynnwys pwy oedd yn berchen ar y safle pan gafodd ei werthu ac a oedd y dyledwr wedi ei gofrestru'n gwmni cyfyngedig ai peidio. Os mai'r sefyllfa olaf oedd yn bodoli a bod y cwmni eisoes wedi ei ddiddymu, ni ellid dilyn

camau adfer yn erbyn unrhyw unigolyn oedd yn gysylltiedig â'r cwmni hwnnw. Cynigiodd y Cynghorydd J A Smith fod rhagor o ymholiadau'n cael eu gwneud ynghylch y derbyniadau o werthu'r safle cyn i'r Awdurdod benderfynu cymeradwyo dileu'r ddyled. Eiliwyd y cynnig hwn gan y Cynghorydd W J Chorlton. Rhybuddiwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân y gallai'r Awdurdod gyrraedd pwynt pryd y byddai'r gost o fynd ar ôl dyled ddrwg yn gallu bod yn uwch na swm y ddyled. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. gwneud ymholiadau pellach i weld a ellid adfer y ddyled o elw gwerthu'r safle cyn i'r Awdurdod gymeradwyo dileu'r ddyled fel un anadferadwy; a***
***ii. bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2006yn manylu ar y sefyllfa.***

## 14) Cwynion a Llythyrau o Werthfawrogiad

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi gwybod i'r aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Er bod cyfanswm nifer y cwynion a ddaeth i law, yr ymchwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod yn uwch na'r flwyddyn cynt, esboniodd fod y ffaith fod y Gwasanaeth bellach yn gallu derbyn cwynion 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, yn debygol o fod wedi cyfrannu at y cynnydd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd. Felly calonogol o beth oedd adrodd mai dim ond dau gŵyn yn fwy a brofwyd na'r flwyddyn cynt. Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks yn ei flaen i sôn am nifer o'r cwynion yr oedd crynodeb ohonynt yn yr adroddiad. I gloi dywedodd mai da oedd adrodd fod nifer y llythyrau o werthfawrogiad a ddaeth i law bron yn ddwbl y nifer a dderbyniwyd yn y flwyddyn flaenorol, ac roedd llawer mwy o'r rheini nag o gwynion. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi nifer y cwynion a'r datganiadau o werthfawrogiad a dderbyniwyd.***

## 15) Diwyg Adroddiadau Pwyllgorau

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am ddiwyg newydd yr adroddiadau a gyflwynir i'r Awdurdod Tân ac Achub a'i bwyllgorau. Esboniodd ei fod, ers tro, yn bryderus am y diffyg cysondeb ac nad oedd adroddiadau'r pwyllgorau wedi eu safoni. O'r herwydd, cafwyd adolygiad o ddiwyg adroddiadau'r pwyllgorau. Manylwyd ar gefndir yr adolygiad, ei gylch gwaith a'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r aelodau. Aeth y Prif Swyddog Tân yn ei flaen i egluro bod yr holl adroddiadau a gyflwynwyd i'r cyfarfod presennol wedi eu cyhoeddi yn y diwyg newydd.

Roedd yr aelodau'n croesawu'r diwyg newydd ac o'r farn y byddai'r maint ffont mwy a'r lliwiau gwahanol yn gymorth iddynt gyda'u gwaith. Mynegodd y Cynghorydd D Barratt bryder y gallai defnyddio papur pinc ar gyfer adroddiadau gwybodaeth greu dryswch i rai aelodau gan fod ei awdurdod cartref yn defnyddio papur pinc ar gyfer adroddiadau cyfrinachol. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Tân ef at yr adroddiad a dweud bod ystyriaeth ofalus wedi ei roi i'r lliwiau a ddefnyddir ar gyfer mathau gwahanol o adroddiadau. Daeth i'r amlwg yn ystod yr adolygiad nad oedd dim polisi safonol rhwng yr awdurdodau cyfansoddol ar ddefnyddio papur lliw, felly roedd yr Awdurdod wedi dilyn ei drefn ei hun o ran lliwiau. Felly:

***Penderfynwyd: - nodi'r wybodaeth a ddarparwyd ar ddiwyg adroddiadau pwyllgorau yn y dyfodol.***

**16) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn cyfredol o'r cylchgrawn "Er Gwybodaeth". Dywedodd fod y cylchgrawn hwn yn un o'r gwelliannau yr oedd Rheolwr yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol wedi cyfeirio atynt yn ei gyflwyniad yn gynharach yn y cyfarfod. Diolchodd y Cynghorydd J A Smith i'r swyddogion am y cylchgrawn ac am yr holl waith roedd y Gwasanaeth yn ei wneud gyda phobl ifanc:

***Penderfynwyd: - derbyn y cylchgrawn.***

**17) Materion Brys**

Nid oedd dim eitemau wedi eu cyflwyno ar gyfer eu hystyried.

**18) Dyddiadau Cyfarfodydd yr Awdurdod 2006/07**

Cafodd yr aelodau wybod fod dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod llawn yn ystod 2006/07 wedi eu cyhoeddi ar yr agenda fusnes. Oherwydd gofynion y broses Gynllunio i Leihau Risg, roedd cyfarfod nesaf yr Awdurdod llawn wedi newid i ddydd Llun Hydref 23ain 2006 ac yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref Wrecsam. Addawodd y Cadeirydd ddosbarthu gwybodaeth am leoliadau'r cyfarfodydd eraill ynghyd â dyddiad cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol i'r aelodau cyn gynted ag y byddai'r trefniadau'n bendant.

**RHAN II**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod busnes i ben am 11.50 y bore.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** T Roberts **Dyddiedig:** 23 Hydref, 2006

**Nodyn:**

Cyn dechrau'r eitem ar "Nodi Degfed Penblwydd yr Awdurdod" cyflwynodd y Cadeirydd anrheg i Mr Peter Slee i nodi ei ymddeoliad o'i swydd fel Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol) gyda'r Gwasanaeth. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i Mr Slee fod yr anrheg yn cael ei rhoi i ddangos diolch a gwerthfawrogiad yr Awdurdod iddo am 36 mlynedd o wasanaeth ffyddlon i'r gwasanaeth tân. Talodd deyrnged i'w broffesiynoldeb a diolchodd iddo am fod yn berson mor agos atoch ac mor barod i gynorthwyo'r staff a'r aelodau fel ei gilydd. Dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad. Diolchodd Mr Slee i'r Awdurdod am yr anrheg ac i'r aelodau a'r swyddogion am eu dymuniadau da.

## 19) Nodi Dengmlwyddiant yr Awdurdod

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i aelodau a swyddogion a chyn aelodau a swyddogion i Ganolfan Fusnes Conwy ar gyfer yr eitem fusnes arbennig hon a drefnwyd i nodi dengmlwyddiant ffurfio'r Awdurdod.

Dywedodd wrth bawb fod yr Awdurdod, dros y ddegawd ddiwethaf, wedi wynebu nifer o heriau. Y newid mwyaf sylfaenol oedd yn y ffordd yr oedd y Gwasanaeth yn cael ei lywodraethu ac yn benodol ddatganoli'r cyfrifoldeb am yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol.

I nodi'r dengmlwyddiant, roedd yr Awdurdod wedi comisiynu llyfryn i gofio. Roedd y llyfryn yn rhoi hanes datblygiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn fyr, ac yn rhoi crynodeb o rhai o'r pethau roedd wedi eu cyflawni dros y deng mlynedd a fu. Cyn i'r Cadeirydd wahodd pawb i gael cinio, cafodd pawb eu hannog i fanteisio ar y cyfle i weld adnodd diweddaraf y Gwasanaeth ar gyfer cyflwyno addysg diogelwch sef y "Cerbyd Addysg Amlddiben". Dosbarthwyd copi o'r llyfryn dathlu i bawb oedd yn bresennol.